Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

**Cyfarwyddiaeth Pobl a Pherfformiad**

# Adroddiad Blynyddol ar 'Gwasanaethau Cymdeithasol' 2014 / 2015

**Mae'r Adroddiad hwn ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais.**

**E-bost: ACRF@merthyr.gov.uk/ACRF**

**Ffôn: (01685) 724693**

**www.merthyr.gov.uk/ACRF**



# Cynnwys


**Adran 1: Croeso a Chyflwyniad** *3 5*

**Adran 2: Pa mor dda mae ein gwasanaethau'n perfformio a sut gallwn eu gwella?** *6 26*

- Diogelu Pobl Ifanc 6 - *9*
- Gwasanaethau i Oedolion *10 - 14*
- Gwasanaethau i Blant *15 - 19*
- Gwasanaethau i Ofalwyr *20 - 23*
- Rheoli Ein Busnes *24 - 26*

**Adran 3: Gwerthfawrogi Eich Barn** *27*

- Cysylltu *27*

# Adran 1: Croeso a Chyflwyniad

Croeso i fy 'Adroddiad Blynyddol ar y Gwasanaethau Cymdeithasol ym Merthyr Tudful. Fel Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol (Cyfarwyddwr Statudol) y Cyngor, rhan o fy swydd yw adrodd i chi bob blwyddyn ar ba mor dda rydw i'n credu bod Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn gweithio.

Er bod galw mawr am wasanaethau i oedolion a phlant, mae perfformiad cyffredinol y gwasanaethau cymdeithasol yn ystod 2014/2015 wedi parhau'n dda ar y cyfan. Mae hyn yn sgil gwaith caled ac ymroddiad ein staff sy'n ymfalchïo mewn gwasanaethu'u cymuned leol.

Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Merthyr Tudful ynghyd ag asiantaethau partner yn parhau i weithio'n galed i amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymuned a chefnogi'r rheini y mae angen ein cymorth arnynt. Cynhaliwyd perfformiad yn y maes hwn ac mae'n dda ar y cyfan. Er mwyn gwella prosesau rhannu gwybodaeth ar draws y Cyngor a phob asiantaeth bartner, sefydlwyd Hwb Diogelu Amlasiantaeth (MASH) ar gyfer oedolion ac ar gyfer plant mewn risg. Lansiwyd y MASH yn swyddogol ym mis Mai 2015.

Fel sy'n wir ymhob Cyngor arall yng Nghymru, rydym yn wynebu'r angen i leihau faint o arian rydym yn ei wario. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod bod y Cyngor yn dal i fod yn ymrwymedig i ddarparu adnoddau ychwanegol lle bo wir angen i ddiwallu anghenion y rhai mwyaf agored i niwed. Byddwch yn ymwybodol ein bod wedi ymgynghori â chi'n ddiweddar ar nifer o argymhellion i gynnal prosesau effeithlonrwydd ar draws y Cyngor. Gall rhai o'r rhain effeithio arnoch yn uniongyrchol. Rydym am eich sicrhau ein bod wedi gwrando'n ofalus iawn ar eich sylwadau ac na wnaed unrhyw benderfyniadau i leihau'r gwasanaethau'n ddifeddwl. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau y gall ein gwasanaethau barhau i weithio'n effeithiol, eu bod yn diwallu anghenion y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymuned, eu bod wedi'u cydbwyso yn erbyn yr ymrwymiad i gefnogi gwasanaethau sy'n helpu pobl ar gam cynnar, a'u bod yn atal pethau rhag gwaethygu.

Rydym yn dod mwyfwy yn awdurdod comisiynu sy'n golygu efallai na allwn ddarparu'r gwasanaethau ein hunain. Yn hytrach, gallwn dalu sefydliadau eraill i'w darparu ar ein rhan. Gall y sefydliadau hyn fod yn y sector annibynnol, yn y trydydd sector (nid er elw) neu yn y sector gwirfoddol. Mae cytundeb ar waith ymhob un o'r trefniadau hyn a gaiff eu monitro'n rheolaidd.

Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid ac wedi defnyddio'r Gronfa Gofal Canolraddol (sef grant gan Lywodraeth Cymru i wella gwasanaethau i bobl hŷn) i helpu'r holl asiantaethau i gydweithio'n well er mwyn i chi gael y gwasanaethau angenrheidiol mewn ffordd gydlynol. Gan ddefnyddio ein Gwasanaethau Ymateb Cychwynnol, rydym ar y cyfan wedi bod yn hynod lwyddiannus o ran helpu pobl i ddychwelyd adref o'r ysbyty pan eu bod yn barod i wneud hynny a chefnogi pobl i fyw yn hirach yn eu cymuned.

Mae ystod o gefnogaeth ar gael i ofalwyr o'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Rhwydwaith Gofalwyr ehangach sydd mewn cysylltiad â thros 900 o ofalwyr yn ein cymuned ac yn eu cefnogi. Er bod hyn i'w weld yn rhif mawr, rydym yn gwybod bod rhagor o ofalwyr ac rydym o'r farn bod angen gwneud rhagor i gefnogi gofalwyr. O safbwynt gwasanaethau cymdeithasol mae angen i ni wella ein perfformiad trwy gynyddu nifer yr asesiadau rydym yn eu canol i ofalwyr.

Mae'r Gwasanaeth Plentyn mewn Angen Uwch yn parhau i fod yn llwyddiannus ac mae llawer o'r plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wedi dweud wrthym fod eu bywydau wedi gwella o ganlyniad i'n

cefnogaeth. Yn ystod 2015 bydd y gwasanaeth yn symud i leoliad newydd a fydd yn cynnig mwy i le a chyfleusterau gwell.

Mae'n bleser hefyd gennyf gyhoeddi ein bod wedi parhau i adeiladu ar ein llwyddiant o ran recriwtio Gofalwyr Maeth ar draws Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac rydym wedi gallu cefnogi 8 o bobl ifanc i barhau â'u gofalwyr maeth ar ôl iddynt droi 18 oed trwy'r cynllun 'Pan Rwy'n Barod'.

Eleni rydym wedi gweld newidiadau sylweddol i sut rydym yn trefnu ein gwasanaethau. Ym mis Gorffennaf 2014 newidiodd trefniadau'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Mae Gwasanaethau Troseddau Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf bellach wedi uno i ddarparu un gwasanaeth ar draws y ddwy ardal (ardal Cwm Taf).

Bydd gennym nifer o heriau dros y flwyddyn nesaf, a'r mwyaf o'r rhain fydd cynnal neu wella ein perfformiad a chynnal arbedion, ynghyd ag Awdurdodau Lleol eraill. Rydym wedi llwyddo i wneud hyn hyd yn hyn. Ym mis Ebrill 2016 bydd y 'Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru)' yn dod i rym. Mae hyn yn rhoi nifer o gyfrifoldebau i Awdurdodau Lleol a gwasanaethau cymdeithasol. Pwrpas y Ddeddf yw:

- Gwneud bywyd yn well i bobl a'u gofalwyr;
- Gwneud y gyfraith gofal cymdeithasol yn haws ei defnyddio;
- Rhoi llais cryfach a mwy o reolaeth i bobl;
- Sicrhau bod pobl yn cael y cymorth angenrheidiol i fyw bywyd da;
- Dweud pa olwg fydd ar wasanaethau cymdeithasol ledled Cymru;
- Sicrhau bod cyfle gan gymunedau i gynnig eu gwybodaeth a'u profiad.

Yn 2013, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal o'r enw "Mwy Na Geiriau". Mae'r fframwaith yn gosod y safle presennol ac yn nodi'r hyn y mae angen ei wneud i wella gwasanaethau i'r rheini sydd angen neu sy'n dewis derbyn eu gofal trwy gyfrwng y Gymraeg. Datblygwyd cynlluniau gweithredu cefnogol sy'n rhoi manylion am y camau angenrheidiol i gryfhau gwasanaethau Cymraeg. Bu cynnydd yn erbyn y camau'n brin eleni yn sgil yr angen i flaenoriaethu staff i gyflawni effeithlonrwydd angenrheidiol yr awdurdod lleol a pharatoi at y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru). Mae hyn yn parhau i gael ei adolygu a phan fydd adnoddau ar gael bydd gweithredu ar hwn yn nes ymlaen eleni.

Mae'n bleser hefyd gennyf ddweud bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, ynghyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi llofnodi'r llw 'Amser Newid' ar y cyd eleni. Rydym yn ymrwymedig i'r achos pwysig hwn a byddwn yn chwarae rhan weithredol mewn rhoi diwedd ar y stigma a'r gwahaniaethu yn erbyn pobl â phroblemau iechyd meddwl yng Nghymru – yn y gweithle ac yn eu cymuned.

## Blaenoriaethau eleni.

Ymhlith ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf mae:

- Parhau i ddiogelu'r bobl fwyaf agored i niwed yn y ein cymuned;
- Cynnal neu wella ein perfformiad presennol ar draws y gwasanaethau cymdeithasol;
- Ynghyd â'n partneriaid byddwn yn paratoi at weithredu'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn 2016 ac yn sefydlu ethos gwaith partneriaeth ac ymyrraeth/atal cynnar yn ein gwaith dyddiol.

- Lle bo'n bosibl, cynnal yr arbedion y gofynnwyd i ni eu gwneud heb effeithio ar ansawdd y gwasanaethau rydym yn eu cynnig.

Gweler adrannau eraill o fy adroddiad am ragor o enghreifftiau o'r hyn rydym yn bwriadu'i wneud dros y flwyddyn nesaf.

Ers ein hadroddiad blynyddol diwethaf, rydym wedi gweld nifer o newidiadau o ran rheoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Cyngor wedi rheoli hyn yn dda ac o ganlyniad i hyn mae ein perfformiad wedi parhau'n dda ar y cyfan. Mae hyn yn deilyngdod i holl staff yr adran gwasanaethau cymdeithasol a'n partneriaid. Hoffwn ddiolch i bob un ohonynt yn ffurfiol am eu gwaith caled a'u proffesiynoldeb wrth helpu i gefnogi'r bobl fwyaf bregus yn ein cymuned.

I gloi; hoffwn ddiolch i bob un ohonoch sydd wedi rhoi adborth ar yr Adroddiad Blynyddol Drafft fel rhan o'n proses ymgynghori ym mis Ebrill 2015. Gwerthfawrogwyd eich cefnogaeth yn fawr iawn. Mae'r holl adborth wedi'i ystyried yn ofalus a'i ddefnyddio i fy helpu i ysgrifennu'r adroddiad terfynol. Rhannwyd nifer o'r sylwadau a gafwyd â'n gwasanaethau hefyd i'w hystyried wrth gynllunio gwasanaethau, gwelliant a datblygiad yn y dyfodol.





**Mrs. Lisa Curtis-Jones**
Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) – Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol

# Adran 2: Pa mor dda mae ein gwasanaethau'n perfformio a sut gallwn eu gwella?

## Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed



**Mae pob plentyn, person ifanc ac oedolyn sy'n agored i niwed yn haeddu teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn iach; ac yn haeddu amddiffyniad rhag cael ei gam-drin.**

Mae Diogelu fel arfer yn cyfeirio at y rheini a allai fod yn agored i niwed. Gall hyn gynnwys:

- Plant dan 18 oed;
- Pobl ac anabledd corfforol, gweledol, clyw neu ddysgu;
- Pobl a chanddynt iechyd meddwl gwael;
- Yr henoed, pobl fregus neu bobl sâl;
- Rheini sy'n byw mewn cartref lle mae cam-drin domestig.

Yn y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud cynnydd da o ran diogelu pobl sy'n agored i niwed. Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'n cydweithwyr ar draws y Cyngor ac asiantaethau partner i sicrhau:

- Pan fo staff newydd yn dechrau yn y Cyngor eu bod yn ddiogel i weithio gyda phobl sy'n agored i niwed;
- Bod gweithwyr, cynghorwyr, ysgolion a'n partneriaid wedi parhau i gael yr hyfforddiant angenrheidiol i adnabod arwyddion cam-drin a gwybod pa gamau y dylid eu cymryd os ydynt yn poeni am rywun;
- Ein bod yn adolygu ein perfformiad yn rheolaidd i sicrhau bod ansawdd ein harfer yn parhau o safon dda;
- Ein bod yn gwrando ar farn pobl sy'n agored i niwed a'u teuluoedd. Mae hyn wedi ein helpu i wella sut rydym yn gweithio ac ansawdd y gefnogaeth rydym yn ei rhoi.

Ynghyd â'n partneriaid, rydym wedi sefydlu Hwb Amlasiantaeth (MASH) ar gyfer Gwasanaethau Amddiffyn Oedolion ac ar gyfer Gwasanaethau Plant. Roedd y Gwasanaeth Amddiffyn Oedolion ar waith ym mis Ionawr 2015 a'r Gwasanaethau Plant ym mis Ebrill 2015. Dyma le mae'r asiantaethau allweddol sy'n gyfrifol am ddiogelu wedi'u lleoli a lle maent yn ystyried y pryderon a gawn ac yn penderfynu'r hyn y mae angen ei wneud. Cyn y MASH, gwnaed y gwaith hwn gan bob asiantaeth yn unigol a'i rannu lle bo angen. Mae'r holl bobl hyn bellach wedi'u lleoli yn yr un lle ac yn gallu rhannu'r wybodaeth ar unwaith. Golyga hyn ein bod yn gallu gwella'n gallu i gydlynu, gwarchod a chefnogi pobl fregus sydd mewn perygl.


**Wyddoch chi?**

**Mae'r 'Gofrestr Amddiffyn Plant' yn rhestr gyfrinachol o enwau plant a phobl ifanc ledled Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Cedwir y gofrestr gan yr Uned Ddiogelu mewn gwasanaethau cymdeithasol ac mae cynllun amddiffyn amlasiantaeth ar gyfer pob plentyn yr ychwanegir ei enw at y Gofrestr Amddiffyn Plant.**

Dros y 3 blynedd diwethaf, bu nifer enwau'r plant a ychwanegwyd at y Gofrestr Amddiffyn Plant yn uchel o gymharu ag Awdurdodau eraill Cymru. Ystyrir bod sawl rheswm am hyn, gan gynnwys: cyfraddau uchel o gam-drin domestig, nifer y rhieni y mae problemau megis camddefnyddio sylweddau'n effeithio arnynt, camddefnyddio alcohol ac iechyd meddwl gwael. Ar 31 Mawrth 2015 roedd gennym 105 o blant a phobl ifanc ar y 'Gofrestr Amddiffyn Plant'. Mae'r ffigur hwn yn is nag ar yr un amser y llynedd sy'n gadarnhaol, oherwydd bod cyfraddau uchel o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ym Merthyr Tudful o gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru. O'r holl blant a phobl ifanc ar y gofrestr, mae'n dda nodi ar 31 Mawrth na fu'r un ohonynt ar y gofrestr ddwywaith yn y 18 mis diwethaf. Rydym hefyd wedi ceisio sicrhau pan gaiff enwau plant eu hychwanegu at y Gofrestr, na chaiff yr enwau eu tynnu i ffwrdd hyd nes y bu newid digonol i leihau'r risg, gyda gobaith realistig y bydd y newidiadau'n parhau ag amser.

Mae staff Gwasanaethau Cymdeithasol Merthyr Tudful wedi gweithio'n galed ar y broses gynllunio sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar gyfnod cynnar, sydd wedi arwain at deuluoedd yn cymryd mwy o ran yn y cynlluniau ac wedi helpu ein llwyddiant wrth weithio gyda theuluoedd i leihau risg a chefnogi pobl ifanc.

Pan fo pryder y gall plentyn neu berson ifanc fod mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso, mae galw arnom i gynnal cyfarfod â phawb sy'n gysylltiedig ymhen 15 niwrnod gwaith er mwyn i ni benderfynu a yw hyn yn wir a rhoi cynllun ar waith i amddiffyn y plentyn. Rydym wedi gwella pob blwyddyn ers 2010, o ran cwrdd â'r graddfeydd amser hyn ac rydym yn well na'r cyfartaledd Cymru diweddaraf sydd ar gael (89.9%). Roedd ein perfformiad y llynedd yn rhagorol. Fel y gwelwch o'r graff isod, rydym wedi gallu cynnal ein perfformiad eto eleni gyda 100% o'n cyfarfodydd yn cael eu cynnal mewn pryd.



Pan fo plentyn neu berson ifanc yn derbyn gofal gennym neu ar y Gofrestr Amddiffyn Plant; ein gwaith ni yw adolygu pa mor dda mae'r sefyllfa ar adegau penodol o'r flwyddyn. Rydym yn dda yn cynnal yr adolygiadau mewn pryd, er y bu cwymp bach mewn perfformiad eleni gyda 98% o blant sy'n derbyn gofal ac adolygiadau amddiffyn plant yn digwydd mewn pryd o gymharu â 99% o adolygiadau a wnaed mewn pryd y llynedd. Pan na wnaed yr adolygiadau mewn pryd bu hyn yn bennaf o ganlyniad i faterion y tu hwnt i'n rheolaeth, megis rhesymau iechyd neu golled. Er gwaethaf hyn, mae ein perfformiad yn dal i fod yn dda iawn ac mae wedi aros uwchlaw cyfartaledd diweddaraf Cymru o 89.9%.

Er mwyn sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc rydym yn gofalu amdanynt yn teimlo'n ddiogel ac yn saff, rydym yn parhau i gasglu'u barn er mwyn sicrhau'u bod yn hapus yn y teulu maent wedi'u lleoli gyda nhw. Mewn adolygiad diweddar cawsom adborth cadarnhaol a ddywedodd fod llawer o'n pobl ifanc sy'n derbyn gofal yn teimlo'n hapus, wedi ymgartrefu, ac yn cael gofal da a chefnogaeth yn eu lleoliad. Pan fo pobl ifanc wedi mynegi pryderon, bu hyn yn bennaf oherwydd trefniadau gweld teulu a ffrindiau neu newidiadau i le maent yn byw. Byddwn yn gweithio i wella hyn ac yn sicrhau bod yr holl bobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cael y cymorth a'r gefnogaeth i ddatblygu a deall eu cynllun ar gyfer y dyfodol. Mae'r Cyngor yn darparu eiriolwr i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, pan fo'r bobl ifanc yn dweud y byddai hyn yn eu helpu i gymryd rhan mewn penderfyniadau a'u cynlluniau.

Yn sgil llwyth gwaith mwy, mae'r Cyngor wedi cynyddu nifer y staff sy'n gweithio yn adran Oedolion mewn Peryg o'r Uned Ddiogelu. Mae hyn wedi ein helpu i reoli'r risg gan amlaf. Er gwaethaf cael nifer uwch o achosion i ymdrin â nhw, rydym wedi gallu rhoi cynllun ar waith i helpu i leihau perygl o gam-drin pellach mewn 97% o achosion.

### Wyddoch chi?

**Mae'r Cyngor yn cwrdd ag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW), partneriaid perthnasol a rheolwyr/perchnogion cartrefi lle mae pryderon am ansawdd y gofal. Pwrpas y cyfarfod yw rhannu gwybodaeth a llunio cynllun gweithredu er mwyn sicrhau bod ansawdd gofal y preswylwyr yn gwella. Gelwir hyn yn berfformiad darparwyr a'i nod yw atal cartrefi rhag cau o ganlyniad i arfer gwael.**

Isod mae rhestr o nifer o enghreifftiau o'r hyn rydym yn ei wneud ar hyn o bryd a'r hyn y mae angen i ni ei wneud yn well.

## Ein Perfformiad – Beth rydym yn ei wneud yn dda?

- Pan fo plentyn/person ifanc mewn perygl o gael ei gam-drin, cynhaliwyd cyfarfodydd, adolygiadau a gwnaed penderfyniadau'n amserol, gyda 100% o gyfarfodydd yn cael eu cynnal ymhen 15 niwrnod gwaith a 98% o adolygiadau amddiffyn y plentyn yn cael eu cynnal mewn pryd. Ar ddiwedd y flwyddyn (Mawrth 2015) – mae gan 105 o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant gynllun amddiffyn y plentyn ar waith a fydd yn gwella'u diogelwch a'u lles.
- Er y bu cynnydd yn nifer yr oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, ar 31 Mawrth 2015, rydym wedi gallu rheoli'r risg yn 97% o achosion. Golyga hyn bod gennym gynllun gweithredu ar waith i leihau perygl o gam-drin pellach. Mae ein perfformiad ychydig yn is na'r llynedd (99%), fodd bynnag mae ein perfformiad eleni'n dal i fod yn dda iawn ac rydym yn parhau uwchlaw'r cyfartaledd Cymru diweddaraf (94.5%).

- Caiff ansawdd arfer pawb sy’n gysylltiedig â diogelu plant ac oedolion sy’n agored i niwed ei adolygu’n rheolaidd ac adroddir arno i’r Cyngor. Mae hyn yn sicrhau y caiff enghreifftiau o arfer da eu rhannu a bod arfer yn gwella lle nad yw pethau cystal ag y gallent fod.

## Beth allem ei wneud yn well?

- Annog a helpu rhagor o blant a phobl ifanc i gymryd rhan yn eu cyfarfodydd amddiffyn y plentyn.
- Annog rhagor o oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin i gymryd rhan yn y cyfarfodydd sy’n trafod sut y gellid eu hamddiffyn.

## Beth arall y mae angen i ni ei wneud yn 2015 / 2016?

Isod mae rhestr o rai enghreifftiau o’r hyn rydym yn bwriadu’i wneud dros y 12 mis nesaf yn y maes hwn:

- Byddwn yn parhau i fonitro ansawdd arfer yn rheolaidd a gweithio’n galed i wella ein perfformiad yn y meysydd lle nad ydym yn gwneud cystal, a sicrhau bod perfformiad da yn aros yn dda.
- Byddwn yn parhau i ddarparu hyfforddiant perthnasol a chefnogaeth i gydweithwyr mewn meysydd eraill o’r Cyngor er mwyn sicrhau eu bod yn deall eu rôl o ran diogelu pobl sy’n agored i niwed yn ein cymuned a rhannu unrhyw bryderon sydd ganddynt o ran yr Uned Ddiogelu i’w hystyried ymhellach a gweithredu arnynt.
- Yn nhymor yr hydref 2015, ynghyd â’n partneriaid, byddwn yn adolygu pa mor dda mae’r Hwb Diogelu Amlasiantaeth i oedolion a phlant yn ei wneud.
- Byddwn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc y mae cam-fanteisio’n rhywiol ar blant wedi effeithio arnynt, yn cael eu clywed a’n bod yn gweithio’n effeithiol gyda phartneriaid a theuluoedd i herio’r rheini sy’n troseddu yn yr ystyr hwn a gwneud plant yn ddiogel.

### Wyddoch chi?

**Mae Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant yn ffordd o gam-drin. Gallai fod ar ffurf plant a phobl ifanc yn cael eu denu i berthynas rywiol ag oedolion sy’n defnyddio amryw ddulliau megis rhoi rhoddion, sigarennau, serch, cyffuriau, arian ac ati... Pa ffordd bynnag mae’n dechrau a beth bynnag y mae plentyn/person ifanc yn teimlo – daw i ddiwedd gwael pob tro. Gall camfanteisio’n rhywiol ar blant ddigwydd dros y rhyngrwyd neu ar ffonau symudol. Ymhob mae gan y rheini sy’n camfanteisio ar y plentyn neu’r person ifanc rym drostynt, er enghraifft oherwydd eu hoedran, rhyw, cryfder corfforol ac ato. I’r rheini a gaiff eu cam-drin, mae poen eu profedigaeth a’r ofn na fydd unrhyw un yn eu credu’n golygu eu bod yn aml yn rhy ofnus i ddweud am y sefyllfa.**

**Os ydych yn blentyn neu’n berson ifanc y mae angen help arnoch, ffoniwch Childline ar 0800 11 11.**

**Os ydych yn oedolyn sy’n drwgdybio bod hyn yn digwydd, rhaid i chi ffonio’r Heddlu.**

# Gwasanaethau i Oedolion



Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid i ddatblygu a gwella'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig i chi er mwyn i chi allu parhau i fyw'n annibynnol ac yn ddiogel yn eich cymuned lle bo'n bosibl.

Er enghraifft, gall hyn gynnwys:

- Darparu cefnogaeth gartref os ydych wedi dod allan o'r ysbyty'n ddiweddar;
- Trefnu i rywun ddod i'ch helpu ag anghenion gofal personol; neu ddarparu taliad uniongyrchol i chi er mwyn i chi allu trefnu'ch gofal eich hun mewn ffordd ac ar amser sy'n addas i chi;
- Rhoi'r hyder i chi reoli tasgau personol ac ymarferol dyddiol o amgylch eich cartref trwy roi cyngor, cefnogaeth neu offer.

Eleni rydym wedi parhau i fod yn llwyddiannus o ran helpu pobl i fyw yn eu cymuned yn hirach. Mae'r wybodaeth rydym wedi'i chasglu'n dweud wrthym ein bod bellach yn helpu rhagor o bobl a chanddynt nifer o anghenion gofal gwahanol i barhau i fyw gartref; lle byddan nhw wedi mynd i ofal preswyl yn flaenorol.

Os oes angen ein cymorth arnoch, rydym yn parhau i sicrhau eich bod yn rhan lawn lle bo'n bosibl, o sut y caiff hyn ei ddarparu, ei fod o'r safon orau a'ch bod yn cael eich trin ag urddas a pharch. Rydym hefyd yn sicrhau ein bod yn gwneud y cyfan y gallwn i amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymuned rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

## Yr hyn rydych wedi'i ddweud wrthym!

- ***"Dim cwynion, roedd y Gweithwyr Cymorth i gyd yn gwrtais, yn gymwynasgar ac yn gyfeillgar"***
- ***"Hapus iawn gyda'r gwasanaeth, roedden nhw'n dda iawn i fi"***
- ***"Roedd yr holl staff yn wych, gwasanaeth da iawn"***
- ***"Cefnogaeth gyffredinol dda"***
- ***"Roedd y manteision yn ardderchog. Rydw i'n gallu cerdded o amgylch y fflat yn gyfforddus nawr a mynd i'r lifft i fynd allan. Rydw i wedi cyflawni fy nodau."***
- ***"Gwasanaeth da iawn, helpodd fi nôl ar fy nhraed i wneud pethau o amgylch y tŷ."***
- ***"Gweithiodd y tîm yn dda iawn gyda fi nghael i nôl ar fy nhraed. Rwy'n teimlo llawer yn well nag oeddwn i'n gadael yr ysbyty."***
- ***"Rwy'n gallu edrych ymlaen at ofalu amdanaf fy hun, diolch i'r holl dîm sydd wedi fy nghefnogi."***
- ***"Yr unig beth roeddwn i eisiau gallu'i wneud yw chwarae bingo, ac rwy'n gallu gwneud hwnna nawr."***

Ym mis Ebrill 2016 daw'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) i rym. Mae hyn yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor a'i bartneriaid i ddatblygu ystod o wasanaethau a fydd yn atal neu'n gohirio'r angen am ofal a chefnogaeth. Bydd hyn yn golygu yn y dyfodol y bydd rhagor o bobl yn cael cefnogaeth gartref ac yn eu cymuned leol. Gwaith yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol fydd parhau i gefnogi'r bobl hynny y mae'r angen mwyaf arnynt yr Awdurdod Lleol yn unig all ei ddiwallu (Ffynhonnell: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014). Mae hyn yn cynnwys pobl hŷn sy'n agored i niwed, pobl â salwch meddwl a phobl na allant wneud pethau dros eu hunain heb gefnogaeth. Dros y blynyddoedd nesaf byddwn yn gweld ystod a nifer y gwasanaethau cymdeithasol yn cynyddu mewn ymateb i ofynion y Ddeddf a chynorthwyo'r rheini ohonom a allai angen gwybodaeth, cyngor a chymorth ar gam cynnar. Dros amser felly rydym yn disgwyl gweld cwymp yn nifer y bobl y mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu cefnogi.

Mae adegau fodd bynnag pan na allwn bellach eich cefnogi i fyw'n ddiogel yn eich cartref eich hun. Os ydy hyn yn digwydd, byddwn yn gweithio'n agos gyda chi a'ch teulu/gofalwr i ddod o hyd i'r syniad amgen gorau posibl. Nid yw hyn yn golygu y byddech yn awtomatig yn byw mewn cartref preswyl. Mae ystod o opsiynau eraill y gallech eu hystyried, gan gynnwys:

- **Llety Gwarchod** – Mae 415 o unedau llety gwarchod ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Gymdeithas Dai'n darparu'r holl lety gwarchod ym Merthyr Tudful. Mae gan bob cynllun warden (neu'n rhannu warden) ond nid yw'r rhain yn aml yn byw yn y cynllun. Mae Llety Gwarchod naill ai ar gyfer pobl 50+ neu 55+ (yn dibynnu ar y Gymdeithas Dai) ac yn darparu cyfle i Bobl Hŷn fyw yn y gymuned gyda phobl eraill eu hoedran nhw i fyw'n annibynnol.

- **Gofal Ychwanegol** – Mae Gofal Ychwanegol Tŷ Cwm yn rhan o ystod o wasanaethau y mae'r cyngor yn eu darparu i helpu i ddiwallu anghenion pobl hŷn. Mae Tŷ Cwm yn cynnig 60 uned gyda chymysgedd o lety un ystafell a dwy ystafell wely. Gall gynnig math gwahanol o wasanaeth i'r cartrefi gofal preswyl traddodiadol trwy annog a hyrwyddo byw yn annibynnol. Os ydych yn byw mewn Gofal Ychwanegol, mae gennych eich llety eich hun a'ch drws blaen eich hun. Gallwch benderfynu pwy sy'n dod i'ch cartref a phwy nad yw'n dod i mewn. Mae gofal a chefnogaeth ar gael ar y safle 24/7 os oes ei angen i'ch helpu i aros yn y gymuned yn hirach. Mae Gofal Ychwanegol yn ddewis go iawn i bobl nad allant aros yn eu cartref oherwydd bod eu hanghenion wedi newid.



- **Cynlluniau Byw ar y Cyd** – Mae'r cynllun byw ar y cyd yn cefnogi oedolion sy'n agored i niwed i fyw gyda gofalwyr naill ai am seibiant tymor byr neu'n barhaol. Mae lleoliadau wedi'u teilwra i'r unigolyn a'u galluogi i gael cymorth i fyw bywydau mwy annibynnol.

## Wyddoch chi?

**Mae Comisiynydd Pobl Hŷn a gynhaliodd adolygiad o gartrefi preswyl a nyrsio o'r enw 'Lle i'w Alw'n Gartref'. Mae pob awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd wedi cynhyrchu cynllun gweithredu i wella ansawdd bywyd a gofal i blant hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal yng Nghymru.**

Mae dau dîm o staff yn ein Gwasanaeth Iechyd Meddwl o'r Cyngor ac asiantaethau partner. Mae'r tîm yn cefnogi pobl a chanddynt broblemau iechyd meddwl hir dymor neu ddwys. Mae'r timau hyn yn gweithio yn ôl yr hyn a elwir 'Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010'. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn dweud bod yn rhaid i 90% o'r bobl rydym yn gweithio gyda nhw gael y cynlluniau gofal a thriniaeth priodol yn eu lle. Mae'n bleser gennyf adrodd ein bod wedi cyflawni'r targed hwn ac y byddwn yn parhau i weithio'n galed i sicrhau bod hyn yn parhau.

## Wyddoch chi?

**Mae Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd yn rhan o ymgyrch byd-eang i godi ymwybyddiaeth a lleihau'r stigma a'r gwahaniaethu sy'n gysylltiedig â materion iechyd meddwl. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Iechyd, y Trydydd Sector, Defnyddwyr Gwasanaethau a Gofalwyr yn trefnu'r digwyddiad. Mae Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd yn digwydd pob blwyddyn ar 10 Hydref neu'n agos at y dyddiad hwn ac mae'n amser pan fo pobl a sefydliadau'n dod at ei gilydd i hybu gwell ymwybyddiaeth gyhoeddus a dealltwriaeth o faterion iechyd meddwl, lles emosiynol ac iechyd meddwl. Mae'r digwyddiad yn darparu cefnogaeth i ofalwyr, ffrindiau a theulu'r rheini a chanddynt salwch meddwl; yn ogystal â gwybodaeth a chymorth i bob un ohonom am sut i gynnal ein hiechyd meddwl a'n lles ein hunain.**


**Llynedd, roedd dros 70 o stondinwyr a gymerodd ran yn Niwrnod Iechyd Meddwl y Byd; gan ddarparu cyngor, gwybodaeth ac amryw weithgareddau megis: sesiynau blasu therapi am ddim, gweithdai a nifer o stondinau celf a chrefft â phethau i'w prynu, a'i weld a'i wneud. Roedd y diwrnod yn llwyddiant gyda thua 300 o bobl yn bresennol.**

Ar y cyfan, credwn y bu'n cynnydd a'n perfformiad eleni'n rhesymol dda. Yn ogystal â thrwy'r wybodaeth rydym yn ei chasglu, rydym yn gwybod hyn oherwydd bod sefydliadau megis yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW) wedi edrych ar yr hyn rydym yn ei wneud ac yn dweud yr un neges am ein perfformiad ac mae meysydd y mae angen i ni weithio'n galetach arnynt o hyd.

Mae rhai enghreifftiau o'r hyn rydym yn ei wneud yn dda wedi'u rhestru isod.

## Ein Perfformiad – Beth rydym yn ei wneud yn dda?

- Rydym wedi gweithio'n galed eleni gyda'n cydweithwyr yn y gwasanaeth iechyd i helpu pobl i ddychwelyd adref o'r ysbyty cyn gynted â phosibl. Mae ein gwybodaeth perfformiad yn dweud wrthym ein bod wedi gwella o ganlyniad i'r gwaith caled hwn, ond bod lle i wella o hyd. Mae'r graff ar y dudalen nesaf yn dangos bod nifer y bobl sy'n aros yn yr ysbyty heibio i'r pwynt y maent yn ddigon iach i ddychwelyd adref wedi gostwng o gymharu â pherfformiad y llynedd ac rydym hefyd yn perfformio'n well na'r rhan fwyaf o'r awdurdodau yng Nghymru - mae hyn yn dda. Mae hyn yn bennaf oherwydd y gwasanaethau a ddarperir gan ein Timau Ymateb Cychwynnol ac Ail-alluogi sy'n helpu pobl i ddatblygu'u hyder er mwyn gallu adennill eu hannibyniaeth. Mae nifer y bobl a gaiff eu cefnogi fel hyn wedi mwy na dyblu dros y 5 mlynedd diwethaf. Ar y cyfan, o ganlyniad i hyn nid oes angen gwasanaeth hirdymor ar hanner y bobl rydym yn eu cefnogi fel hyn.






## Beth allem ei wneud yn well?

- Pan fo rhywun yn cael eu cefnogi gennym mae ganddynt gynllun unigol (o'r enw cynllun gofal) rydym yn eu cytuno â nhw. Dylid adolygu'r cynllun hwn o leiaf unwaith y flwyddyn. Er bod cynllun gofal gan bawb, mae ein perfformiad o ran eu hadolygu wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae rhywfaint o welliant eleni. Llynedd cafodd 74.8% o'r cynlluniau eu hadolygu. Eleni adolygwyd 78.9% o gynlluniau gofal y dylid bod wedi'u hadolygu yn ystod y flwyddyn. Er y bu gwelliant gwn fod angen gwneud llawer yn well a byddwn yn parhau i weithio'n galed i gyflawni hyn.
- Bydd y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn ei gwneud yn haws i bobl gael taliadau uniongyrchol a thalu am ystod lawer ehangach o wasanaethau y gallai fod eu hangen arnynt. Er y bu nifer y bobl sy'n cael taliadau uniongyrchol yn cynyddu'n raddol, ar y cyfan mae nifer y bobl sy'n eu cael wedi arafu. Rydym ar hyn o bryd yn edrych ar ffyrdd rydym yn gallu helpu rhagor o bobl i ddefnyddio taliadau uniongyrchol i dalu am eu hanghenion cefnogi. Ar 31 Mawrth 2015, roedd 126 o bobl yn cael taliadau uniongyrchol ac o'r rhain mae 72 o oedolion. Rhaid i ni wella hyn.

## Beth arall y mae angen i ni ei wneud yn 2015 / 2016?

Er ein bod yn parhau i wynebu llawer o heriau, megis y pwysau ariannol parhaus y mae'r awdurdod lleol yn ei wynebu a pharatoi at weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014; mae hyn hefyd yn gyfle i ni ddatblygu a gwella ein gwasanaethau ymhellach. Ynghyd â'n partneriaid, byddwn yn parhau i weithio'n galed i sicrhau y cewch y gwasanaeth gorau posibl.

Dros y 12 mis nesaf:

- Ein nod yw gwella ein perfformiad ymhellach; yn arbennig yn y meysydd nad ydym yn gwneud cystal ynddynt ar hyn o bryd;
- Ynghyd â phob Cyngor arall rydym wedi cael galw i arbed yr arian rydym yn ei wario. Yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion hyd yn hyn rydym wedi llwyddo i wneud hyn heb effeithio ar ansawdd y gwasanaethau gennym. Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn ceisio gwneud hyn unwaith eto, ond fe allai fod yn anodd;
- Byddwn yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn y Gwasanaeth Iechyd, y Sector Gwirfoddol a'r Sector Annibynnol i baratoi at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014. Bydd hyn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2016. Mae hyn yn rhoi mwy o gyfrifoldeb fyth ar yr Awdurdod Lleol i sicrhau bod mynediad gan bobl at ystod eang o wasanaethau a allai gynnwys gwasanaethau cymdeithasol rydym yn eu darparu a gwasanaethau a ddarperir gan y sector gwirfoddol ac annibynnol;
- Dros y flwyddyn nesaf byddwn yn edrych ar ffyrdd newydd o ddiwallu anghenion pobl â dementia;
- Byddwn yn dechrau nifer o gyrsiau newydd a grwpiau a ddyluniwyd yn arbennig i bobl â salwch meddwl a/neu anhwylder personoliaeth.

# Gwasanaethau i Blant



Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant yn cynnwys ystod o dimau ac maent yn gweithio gyda nifer o bartneriaid i sicrhau y cedwir yr holl blant a'r bobl ifanc yn ddiogel, yn iach a'u bod yn cael pob cyfle i dyfu a datblygu'n oedolion annibynnol.

**Mae cefnogi plant a phobl ifanc yn un o'n cyfrifoldebau pennaf.**

Mae'r gwaith rydym yn ei wneud yn y gwasanaethau plant yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi newid y ffordd rydym yn gweithio i sicrhau bod plant, teuluoedd ac asiantaethau partner yn rhan lawn o ddatblygu cynlluniau sy'n adlewyrchu'r canlyniadau cytûn i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Rydym wedi datblygu Gwasanaeth 'Plant Mewn Angen Uwch' a fu ar waith ers dros flwyddyn. Mae'r gwasanaeth hwn wedi'i leoli yng Nghanolfan Deulu Merthyr Tudful (Gellideg gynt) ac yn darparu ystod eang o gefnogaeth i blant/pobl ifanc a'u teuluoedd. Er enghraifft, rydym yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc i gael dealltwriaeth well o'u bywyd. Rydym hefyd yn gweithio gyda'r teulu cyfan i'w helpu i wneud y newidiadau angenrheidiol i gadw plant yn ddiogel. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda nifer benodol o blant ar unrhyw adeg sy'n galluogi'r gweithiwr cymdeithasol i weithio'n agos â theuluoedd a'u cefnogi yn eu cymuned. Byddem yn ceisio rhoi cyngor a chefnogaeth ar gam cynnar ac atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu lle bo'n bosibl.

Mae'r gwasanaeth hwn yn perfformio'n dda. Ar y cyfan mae plant/pobl ifanc a'u teuluoedd wedi dweud wrthym eu bod wedi cael budd o'r gefnogaeth wrth helpu i wella'u gwybodaeth, sgiliau a gallu i fod yn rhiant. Mae rhieni hefyd wedi dweud eu bod yn teimlo'n rhan fawr o'r broses. Mae rhai wedi dweud wrthym fod perthynas teuluol wedi gwella; mae ganddynt ddealltwriaeth well o anghenion eu plant; maent yn gallu cadw eu plant yn ddiogel; yn gallu cyfathrebu'n well â'i gilydd ac yn teimlo eu bod yn gallu ymdrin â heriau'n fwy effeithiol.

## Beth rydych wedi'i ddweud wrthym!

- ***"Gwnes i fwynhau gweithio gyda * mae wedi fy helpu'n fawr gyda fy mhroblemau" (person ifanc)***
- ***"Mae e wedi fy helpu i oresgyn fy ofn pan roeddwn i mewn cadair olwyn" (person ifanc)***
- ***"Diolch am bopeth rydych chi wedi fy ngwneud i'n hapus" (person ifanc)***
- ***"Rydw i'n gallu cadw cartref nawr ac mae arferion da i fy mhlant. Rydw i'n hapus iawn ac yn hyderus i wneud y tasgau fy hun. Gwaith ardderchog" (rhiant)***
- ***"Rwy'n gallu delio â gwahanol fathau o faterion llawer yn well nawr trwy gyfathrebu gyda'r teulu" (rhiant)***
- ***Diolch yn fawr am bopeth rydych chi wedi'i wneud i fi a fy mhlant rydw i wedi troi fy mywyd o gwmpas (rhiant)***

Er bod y Gwasanaeth Plant Mewn Angen Uwch (Canolfan Deulu Merthyr Tudful) yn perfformio'n dda, mae angen i ni barhau i wella ar y gwaith da rydym wedi'i wneud hyd yn hyn. Ym mis Ebrill 2016 bydd 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014' yn dod i rym. Fel rhan o'r Ddeddf bydd dyletswydd ar y Cyngor i gamu i mewn yn gynnar er mwyn atal pethau rhag gwaethygu. Bydd gwaith Canolfan Deulu Merthyr Tudful yn ein helpu i wneud hyn.

Bydd darparu cefnogaeth i deuluoedd ar gam cynnar yn parhau i fod yn un o'n blaenoriaethau wrth symud ymlaen. O ganlyniad i hyn, mae gwaith eisoes wedi dechrau ar sicrhau ein bod yn gweithio'n agos iawn gyda chydweithwyr yn y cyngor i wella'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i'r rheini y mae arnynt eu hangen pan fo'r angen am gefnogaeth yn dechrau dod i'r amlwg, â'r nod o atal teuluoedd rhag cyrraedd pwynt argyfwng.

Er y bu rhywfaint o lwyddiant mewn cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ar gam cynnar, bu adegau pan na fu hyn yn bosibl. Roedd hyn pan oedd plentyn neu berson ifanc mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Pan ddigwyddodd hyn, arweiniodd at y plentyn/person ifanc yn derbyn gofal neu'n rhan o'r broses amddiffyn plant.

Mae galw uchel am wasanaethau o'r fath a disgwylir iddo barhau i gynyddu. Rydym yn gweithio'n galed i leihau hyn a bydd y gwaith parhaus a fydd yn cael ei wneud i helpu plant, pobl ifanc a'u teuluoedd pan gyfyd problemau'n gyntaf yn parhau'n flaenoriaeth i ni, er mwyn i ni allu lleihau'r rhif hwn ag amser. Ar 31 Mawrth 2015 roedd gennym 105 o blant/pobl ifanc ar ein Cofrestr Amddiffyn Plant a 163 o blant/pobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Mae ein Gofalwyr Maeth yn chwarae rhan bwysig iawn trwy roi cartref a lle yn y gymuned i'r plant a'r bobl ifanc. Cyhyd ag y bo'n bosibl, rydym yn ceisio dod o hyd i leoliad maethu a fydd yn diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc orau er mwyn sicrhau'u bod yn setlo'n dda ac yn ymgartrefu â'u teulu newydd, yn aros yn eu cymuned ac yn parhau i fynd i'w hysgol. Dros y blynyddoedd diwethaf ydym wedi llwyddo i wneud hyn. Fodd bynnag rydym wedi gweld cynnydd eleni yn nifer yr adegau pan fu'n rhaid i blentyn/person ifanc symud i leoliad gwahanol. Yn ystod 2014 / 2015, cafodd 6.7% o blant sy'n derbyn gofal 3 neu fwy o leoliadau, o gymharu â 3.4% yn 2013 / 2014. Fodd bynnag rydym yn perfformio'n well na'r ffigur cyfartaledd Cymru o 8.3%. Er bod cwymp bach yn ein perfformiad, mae'n bwysig nodi ein bod yn sôn am nifer fach o blant/pobl ifanc ac y bu rhai o'r symudiadau am resymau cadarnhaol megis symud i fyw gyda theulu, cael ei mabwysiadau neu symud i annibyniaeth.

Rydym wedi parhau i adeiladu ar ein llwyddiant o ran recriwtio Gofalwyr Maeth yn 2014 / 2015. Rydym wedi recriwtio 8 gofalwr maeth arall eleni ac wedi asesu a chymeradwyo 9 o ofalwyr maeth perthynas (teulu a ffrindiau). Mae hyn wedi cynyddu ein nifer o ofalwyr maeth i 53 a 17 i ofalwyr maeth perthynas. Golyga hyn fod plant a phobl ifanc wedi cael rhagor o ddewis lle maent yn byw.

## Wyddoch chi?

**Gall pobl ifanc barhau i fyw gyda'u gofalwyr maeth ar ôl 18 oed o dan gynllun o'r enw 'Pan Rwy'n Barod'. Golyga hyn y gallant drefnu i symud i fyw yn annibynnol yn eu hamser eu hunain gyda chefnogaeth a sicrwydd eu cartref maeth.**

Mae dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu cyngor a chefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal hyd nes eu bod yn 21 oed oni bai eu bod mewn addysg uwch ac wedyn yr oedran yw 25. Ar hyn o bryd mae gennym 5 o bobl ifanc mewn prifysgolion ledled y DU. Rydym yn cydweithio â phobl ifanc a'n partneriaid i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth ar beth megis addysg a hyfforddiant, sgiliau byw yn annibynnol, cael swydd, lle i fyw neu gyllidebu. Rydym hefyd yn helpu pobl ifanc sy'n gadael gofal i gynllunio am y dyfodol. Mae gan 95% o'n pobl ifanc sy'n gadael gofal y math hwn o gynllun ar waith.

Barnados sy'n darparu ein gwasanaeth Gadael Gofal ar hyn o bryd. Pan fydd person ifanc wedi gadael ein gofal, rydym yn cymryd ein dyletswydd i 'gadw mewn cysylltiad' o ddifrif, byddwn yn cadw mewn cysylltiad â phobl ifanc sy'n gadael gofal mor aml ag y dymunent hyd nes eu bod yn 21, neu 25 os ydynt yn parhau mewn addysg a thu hwnt i'r oedran dan rai amgylchiadau. Byddwn o hyd yn sicrhau ein bod ar gael i roi cyngor i unrhyw un sy'n gadael gofal ar ba bynnag oedran. Rydym erioed wedi bod yn dda yn gwneud hyn, fodd bynnag bu cwymp eleni yn nifer y rhai sydd newydd adael sy'n dymuno ein bod yn cadw mewn cysylltiad. Mae'n bwysig nodi bod hyn yn berthnasol i garfan fach iawn (mae 13 o 15 o bobl ifanc wedi dymuno ein bod yn cadw mewn cysylltiad).

Er mwyn ein helpu i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl, mae'r Gwasanaeth Sefydlogrwydd wedi gweithio'n galed i ailddatblygu'r grŵp cyfranogi Plant sy'n Derbyn Gofal a phobl sy'n Gadael Gofal o'r enw 'The Rainbows'.

Byddwn yn sicrhau trwy'r grŵp hwn y caiff llais plant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal ei glywed a bod grym ganddynt i ddylanwadu ar y pethau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Rydym yn cydweithio â'n partneriaid, plant a'u teuluoedd i sicrhau bod mynediad gan blant anabl at y cyngor, y gefnogaeth a'r gwasanaethau cywir fel bod yr un cyfleoedd ganddynt ag unrhyw blentyn a pherson ifanc arall ledled Merthyr Tudful. Ar hyn o bryd rydym yn cefnogi 84 o blant a phobl ifanc anabl.

Mae'r teuluoedd rydym yn gweithio gyda nhw wedi dweud wrthym fod ein trefniadau da i gefnogi pobl ifanc anabl sy'n dod yn fwy annibynnol ac yn datblygu i fod yn oedolyn.



Ym mis Gorffennaf 2014 unodd Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf i ddarparu un gwasanaeth (ardal Cwm Taf). Mae nifer o sefydliadau'n cydweithio i greu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i helpu pobl ifanc a allai fod mewn helbul â'r gyfraith. Rydym yn rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol i'r person ifanc (a'u teulu) i newid eu bywydau er gwell a'u helpu i gadw i ffwrdd o droseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae perfformiad yn y maes hwn yn dda ar y cyfan. Mae nifer y bobl ifanc sy'n dod i'r gwasanaeth am y tro cyntaf yn isel. Mae 12 o bobl ifanc wedi dod i'r gwasanaeth eleni o gymharu â chyfartaledd Cymru o 77 o bobl. Rydym hefyd wedi llwyddo i leihau nifer y bobl ifanc sy'n cael dedfryd o garchar - er enghraifft roedd 32 o bobl ifanc yn cael dedfryd o garchar ym Merthyr Tudful yn 2009/2010, erbyn diwedd y flwyddyn ddiwethaf roedd hyn wedi cwympo i 6 o bobl ifanc a 2 o bobl ifanc yn unig gafodd ddedfryd o garchar. Fodd bynnag mae cyfraddau aildroseddu ym Merthyr Tudful yn dal i fod yn uchel o gymharu â chyfartaledd Cymru; er ei bod yn bwysig nodi bod hyn oherwydd nifer fach o bobl ifanc.

Er gwaethaf yr heriau rydym yn eu hwynebu ar hyn o bryd, yn gyffredinol mae'r Gwasanaethau Plant yn perfformio'n dda mewn nifer o feysydd ar y cyfan. Rydym yn cydnabod fodd bynnag nad yw'n perfformiad i gyd cystal ag y gallai fod. Mae hyn yn bennaf oherwydd gallu'r timau a pha mor dda rydym yn cofnodi pethau mewn rhai meysydd. Rydym yn gweithio'n galed i wella hyn ac rydym wedi rhoi nifer o drefniadau ar waith megis recriwtio rhagor o staff i lenwi swyddi gwag a gwella sut rydym yn cofnodi gwybodaeth.

Isod mae rhestr o rai enghreifftiau o'r hyn rydym yn ei wneud yn dda ar hyn o bryd a'r hyn y mae angen ei wneud yn well.

## Ein Perfformiad – Beth rydym yn ei wneud yn dda?

- Pan fo plentyn neu berson ifanc yn dod i dderbyn gofal rydym yn sicrhau'u bod yn mynd i fyw mewn teulu lle byddant yn hapus ac yn ymgartrefu ac mae angen i ni roi cynllun ar waith ar ddechrau'u lleoliad. Rhaid adolygu'r cynlluniau hyn gyda'r plentyn/person ifanc ar adegau penodol – mae'r hyn maen nhw'n ei ddweud am eu profiadau'n bwysig iawn. O ganlyniad i waith caled, cynllunio gwell a threfniadau gwell, roedd cynllun ar waith gan bob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal cyn iddynt ddechrau'u lleoliad a chafodd y rhan fwyaf o'r cynlluniau (98.4%) eu hadolygu mewn pryd.
- Rydym wedi llwyddo i gynyddu nifer y gofalwyr maeth. Golyga hyn fod mwy o ddewis gan blant a phobl ifanc o le i fyw a gallant aros yn eu cymuned lle bo'n bosibl.
- Mae 93% o'r plant, pobl ifanc a'u teuluoedd rydym wedi gweithio gyda nhw yn y gwasanaeth 'Plant Mewn Angen Uwch' wedi dweud wrthym y bu'r gefnogaeth iddynt yn dda, yn dda iawn neu'n rhagorol.
- Pan gawn gais i gefnogi plant/pobl ifanc a'u teuluoedd rydym yn ceisio darparu gwasanaethau ar gam cynnar er mwyn sicrhau nad yw'r heriau maent yn eu hwynebu'n gwaethygu. Bu gostyngiad yn nifer y plant/pobl ifanc a'u teuluoedd sydd wedi gorfod dychwelyd atom am ragor o gefnogaeth – mae hyn yn dda. Byddai hyn yn awgrymu ein bod yn gwneud y penderfyniadau cywir mewn ffordd amserol.

## Beth allem ei wneud yn well?

- Ers 2009/2010, rydym wedi gwella pob blwyddyn o ran dod o hyd i leoliadau addas a sefydlog ar gyfer ein plant sy'n derbyn gofal. O ganlyniad i hyn, rydym wedi gweld llai o blant a phobl ifanc yn gorfod dod o hyd i leoliadau eraill a llai o symud. Ni oedd y gorau yng Nghymru llynedd gyda 3.4% yn unig (6 o 175) o'n plant sy'n derbyn gofal yn symud teirgwaith neu fwy yn y flwyddyn. Fodd bynnag ni fu ein perfformiad cystal eleni (6.7%, sef 11 o 163 o blant sy'n derbyn gofal). Er ein bod yn gweithio'n galed i sicrhau nad yw plant yn symud llawer, mae'n bwysig nodi y bu rhai symudiadau am resymau cadarnhaol, megis y person ifanc yn symud i annibyniaeth, symud i fyw gyda theulu neu gael ei fabwysiadu.
- Pan fo plentyn/person ifanc yn dod atom am gefnogaeth yn gyntaf mae disgwyl i ni asesu'u hanghenion ymhen 7 diwrnod gwaith - gelwir hyn yn asesiad cychwynnol. Bydd asesiad arall, manylach (asesiad craidd) yn cael i gynnal wedyn ar ôl 35 diwrnod gwaith. Mae perfformiad yn wael gyda 57% yn unig o asesiadau cychwynnol ac 81% o asesiadau craidd yn cael eu cynnal mewn pryd. Byddwn yn adolygu ein harfer ac yn gweithio'n galed i wella'r perfformiad hwn.

## Beth arall y mae angen i ni ei wneud yn 2015/2016?

Ymhlith y pethau y mae'n rhaid i ni eu gwneud dros y 12 mis nesaf mae:

- Parhau i weithio i wella'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i bobl ifanc a'u teuluoedd er mwyn iddynt gael y gefnogaeth angenrheidiol ar gam cynnar.
- Byddwn yn gweithio'n galed i wella ein perfformiad yn y meysydd lle nad ydym yn gwneud cystal, ac yn sicrhau ein bod yn cynnal y pethau rydym yn eu gwneud yn dda.
- Byddwn yn adeiladu ar y gwaith da a wnaed hyd yn hyn i sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn parhau i gael y gefnogaeth angenrheidiol ar gam cynnar er mwyn helpu i atal eu problemau rhag gwaethygu.
- Byddwn yn annog ac yn ceisio gwella nifer y plant a'r teuluoedd sy'n datblygu ac yn cytuno ar eu cynlluniau a'u canlyniadau.
- Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i wella'n gwasanaethau.
- Byddwn yn parhau i edrych am ffyrdd o arbed arian heb effeithio ar ansawdd ein gwasanaethau. Bydd y Gwasanaeth Plant Sy'n Derbyn Gofal yn parhau'n her i ni gan fod dyletswydd arnom i ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc.
- Byddwn yn parhau i wella ein dealltwriaeth o 'sut mae da yn edrych' i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd hyn yn ein helpu i ddatblygu canlyniadau clir i'r plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd rydym yn gweithio gyda nhw.
- Byddwn yn parhau i weithio ar ddatblygu strategaeth gefnogi i deuluoedd â phlant anabl.
- Byddwn yn parhau i wella ein trefniadau i sicrhau y caiff anghenion pobl ifanc sy'n dod yn oedolyn eu diwallu'n briodol.


# Gwasanaethau i Ofalwyr



Gall bod yn ofalwr fod yn waith boddhaol, fodd bynnag gall y rôl hefyd fod yn eithaf heriol ar adegau. Mae cael yr wybodaeth, y cyngor a'r gefnogaeth gywir yn bwysig felly.

I'ch helpu yn eich rôl fel gofalwr, mae ystod eang o gefnogaeth ar gael. Mae hyn yn cynnwys:

- Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, pan fo'r person rydych yn gofalu amdano'n dod atom am gefnogaeth neu os ydym yn darparu gwasanaeth ar eu cyfer eisoes.
- Siarad â'ch 'Swyddog Gwybodaeth a Datblygu Gofalwyr' lleol.
- Trwy gefnogaeth grwpiau lleol sydd wedi sefydlu 'Rhwydwaith Gofalwyr'. Mae'r rhain yn cynnwys: Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful, y Gymdeithas Alzheimer's, Hafal, Crossroads, Mind Merthyr a'r Cymoedd a grwpiau Cymunedau yn Gyntaf.
- mae gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael a sut i'w defnyddio hefyd ar gael yn y 'Cwm Taf Carers A-Z Guide', a gynhyrchwyd gan Gynghorau Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Mae'r llyfryn hwn ar gael ar adran 'Gofalwyr' ein gwefan (www.merthyr.gov.uk) neu ar wefannau ein partneriaid. Fel arall, gallwch siarad â'r 'Swyddog Gwybodaeth a Datblygu Gofalwyr' ar (01685) 353907 i ddysgu sut y gallwch gael copi.




### Beth rydych wedi'i ddweud wrthym!

***"Mae'r Carers Booklet yn wych oherwydd bod popeth sydd ei angen, enwau a rhifau cyswllt a gwybodaeth i gyd mewn un lle" (Gofalwr)***

Mae cael cyfle i drafod eich anghenion fel gofalwr yn bwysig. Os ydych yn dod at y Gwasanaethau Cymdeithasol am gefnogaeth byddwn yn gyntaf yn siarad â chi i ddarganfod yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r anawsterau neu'r pwysau rydych yn eu hwynebu. Gelwir hyn yn asesiad. Bydd cynnal asesiad yn ein helpu i roi'r wybodaeth, cyngor a chefnogaeth gywir i chi gynnal eich rôl.

Mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn ceisio annog cynifer o ofalwyr â phosibl i gael asesiad o'u hanghenion. Yn anffodus, nid oes cynifer o ofalwyr yn manteisio ar y cynnig hwn na'n gwasanaethau ag yr hoffem. Mae hyn yn debyg mewn nifer o gynghorau ledled Cymru. Yn ôl ein gwybodaeth bresennol ar 31 Mawrth 2015, cytunodd 210 o'r 528 (39.8%) y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwybod amdanynt ar gael asesiad neu adolygiad o'u hanghenion. O'r rhain aeth 69% (145 o ofalwyr) ymlaen i gael gwasanaeth gennym.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n gofalwyr a'n partneriaid i wella'r perfformiad hwn ac i ddarganfod pam nad yw gofalwyr yn manteisio ar y cynnig o asesiadau neu wasanaethau.

Os ydych wedi cael asesiad gofalwyr ac rydym wedi cynnig cefnogaeth, efallai gallwch gael Taliad Uniongyrchol. Yn hytrach na bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich cefnogi, bydd Taliad Uniongyrchol (sef taliad arian parod) yn cael ei roi i chi er mwyn rhoi rheolaeth, hyblygrwydd a dewis i chi drefnu'r gefnogaeth a fyddai'n fwyaf buddiol i chi, pan fo'i hangen arnoch ac mor aml ag y mae ei hangen arnoch.

Rydym wedi parhau i annog pobl i fanteisio ar y cynnig o daliad uniongyrchol ac wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl sy'n cael y taliad. Ar 31 Mawrth 2015 roedd cyfanswm o 126 o bobl (oedolion a phlant) sy'n cael gwasanaeth gofal cymdeithasol gennym yn cael Taliad Uniongyrchol. Er ein bod wedi gweld cynnydd graddol, rydym am weld rhagor o bobl yn defnyddio Taliadau Uniongyrchol fel ffordd o gael y gefnogaeth angenrheidiol.

Yn ogystal â'r gefnogaeth rydym yn ei darparu'n uniongyrchol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol; mae cefnogaeth hefyd ar gael trwy'ch Rhwydwaith Gofalwyr lleol. Mae'r Rhwydwaith yn cynnwys yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd, sefydliadau gwirfoddol ac yn bwysicaf oll, y gofalwyr. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Rhwydwaith Gofalwyr wedi parhau i wneud cynnydd rhagorol o ran cynyddu nifer y gofalwyr y maent wedi'u nodi sydd bellach yn cael gwasanaeth. Mae'r Rhwydwaith (gan gynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol) mewn cysylltiad â thros 900 o ofalwyr ac yn eu cefnogi yn ein cymuned. Mae rhai o'r sefydliadau sy'n aelodau o'r Rhwydwaith Gofalwyr wedi'u hariannu gan y Cyngor i ddarparu gwasanaethau penodol i bob math o ofalwyr. Enghraifft o hyn yw Gwasanaeth Gofalwyr Ifainc Barnardos.

Mae Barnardos wedi'i ariannu gennym i ddarparu gwasanaeth i Ofalwyr Ifainc yn ein hardal. Mae'r gefnogaeth a roddir i'r gofalwyr ifainc yn dda. Mae Gwasanaeth Gofalwyr Ifainc Barnardos yn cefnogi 65 o ofalwyr ifainc ar hyn o bryd rhwng 5 a 18 oed ar unrhyw adeg. Mae gwaith y Rhwydwaith Gofalwyr wedi nodi 55 Gofalwr Ifanc arall mewn ysgolion rydym wedi gweithio gyda nhw i ddeall eu hanghenion.

Ar y cyfan mae'r gwasanaethau a ddarperir i ofalwyr ar draws y Fwrdeistref Sirol yn dda; a gwrandewir ar lais y gofalwr yn rheolaidd wrth gynllunio gwasanaethau cefnogi. Fodd bynnag rydym yn cydnabod bod gwaith i'w wneud o hyd i nodi rhagor o ofalwyr (y rheini nad ydym yn gwybod amdanynt ar hyn o bryd), cael gwell ddealltwriaeth o anghenion gofalwyr a'r hyn y mae angen ei wneud i barhau i wella ystod ac ansawdd y gwasanaethau sydd o fudd iddynt.

## Beth rydych wedi'i ddweud wrthym!

***"Gall cefnogaeth fod trwy addysgu yn ogystal ag iechyd". (Rhiant Ofalwr)***
***"Dydy rhieni ddim yn adnabod eu hunain nac yn cyflwyno'u hunain fel Gofalwyr". (Rhiant Ofalwr)***
***"Does dim llawer o gefnogaeth yn cael ei gynnig i rieni adeg diagnosis eu plentyn". (Rhiant Ofalwr)***
***"Rydych chi'n gallu siarad â'r bobl yn y sefydliad, mae'r holl staff yn gymwynasgar ac mae'r wybodaeth a'r gefnogaeth yn wych". (Gofalwr Oedolyn)***
***"Achubodd y sefydliad fy mywyd a fy achub rhag y sefyllfa ofalu roeddwn i ynddi". (Gofalwr Oedolyn)***
***"Os oedd y cyfleusterau'n cael eu colli byddai'r goblygiadau'n ofnadwy". (Gofalwr Oedolyn)***

**Wyddoch chi?**

**Os ydych yn rhiant neu'n gofalu am blentyn/oedolyn ifanc; neu os ydych yn ofalwr ifanc – ewch i wefan 'Think Family – Think Parenting' ar www.thinkfamilyparenting.org.uk am fynediad at ystod eang o wybodaeth a manylion cyswllt defnyddiol.**

Isod mae copi o lythyr a gawsom gan Riant Ofalwr ynglŷn â'r gefnogaeth y cafodd.

[redacted]

For the attention of Social Services Merthyr Tydfil

My late son [redacted] received service from your Department for 16 years and I would like to take this opportunity of providing feedback on the quality of care and support he received.

[redacted] had a progressive neurological condition which became evident during his teenage years. At that time he was independent in life however over the following 35 years his condition progressed to [redacted] losing all his skills, was unable to walk and required support in every aspect of his life. He required 24 hour support as he could not attend to any of his needs.

When it became necessary to have external support when [redacted] was 37 years of age, Social Services became involved and as his condition deteriorated the Department ensured his services changed to meet the new requirements. [redacted] needed support in all areas of personal care, mobility and community access and staff from Social Services assisted him with all these day to day tasks.

The staff who attended the house always met my high standards of care for Michael, they were professional, on time and displayed respect and dignity. They, without exception became an important part of both Michael's and my life; always wanting the best for both of us and they were so very supportive. Without them we would have faced extreme difficulties.

It was clear to me that staff were well supported by the Department as it was reflected in their skills. They were well trained and experienced in all aspects of service delivery to clients.

Receiving services from the Department was made easier for me with Management and staff at the office who approachable and good communicators especially keeping me up to date. On the rare occasion I needed to query Michael's hours they would work with me to achieve the best outcome.

When a person requires external support the services they receive cannot be looked at in isolation from family. I benefited from [redacted] receiving support from Social Services as I felt confident with the staff and the support from the Department. This gave me strength during [redacted] illness and his passing.

My testimony to Social Services is **" a well managed Department with a professional caring team who pull out all the stops to support the client and his / her family to increase their wellbeing".**

Regards

[redacted]

7th March 2015

## Ein Perfformiad – Beth rydym yn ei wneud yn dda?

- Mae ein gwybodaeth yn dangos bod y Rhwydwaith Gofalwyr wedi gwneud cynnydd rhagorol o ran cynyddu nifer y gofalwyr maent wedi'u nodi sydd bellach yn cael gwasanaeth.
- Mae cynnydd rhagorol o ran y bartneriaeth ag Adfywio Ysgolion, ysgolion a Barnardos i nodi a chefnogi nifer uwch o Ofalwyr Ifanc.
- Mae gwaith partneriaeth ar draws Rhwydwaith Gofalwyr Merthyr Tudful yn rhagorol. Mae'r Rhwydwaith yn cefnogi ac yn annog gofalwyr yn dda i gymryd rhan mewn datblygu gwasanaethau a chefnogaeth sy'n bwysig iddynt. Defnyddiwyd anghenion gofalwyr lleol i ddatblygu 'Strategaeth Gofalwyr Merthyr Tydfil'.
- Buom yn llwyddiannus eleni'n nodi rhagor o Hyrwyddwyr Gofalwyr. Mae 28 Hyrwyddwr Gofalwyr ar draws y Cyngor ar hyn o bryd; sy'n cynnwys Cynghorwyr, staff llyfrgell a gweithwyr cymdeithasol. Mae hefyd hyrwyddwyr mewn rhai o'r lleoliadau llety gwarchod lleol a 6 meddygfa. Rôl Hyrwyddwyr Gofalwyr yw hybu ymwybyddiaeth o rôl gofalwyr a chefnogi a chynyddu ymwybyddiaeth o faterion gofalwyr.

## Beth allem ei wneud yn well?

- Er ein bod yn draddodiadol yn dda yn y gwasanaethau cymdeithasol yn cynnig asesiad o anghenion gofalwyr oedolion, rydym wedi gweld cwymp yn ein perfformiad eleni (o 100% llynedd i 85% ar ddiwedd mis Mawrth 2015). Gallai hyn fod am nifer o resymau; gan gynnwys sut rydym yn cofnodi ein gwybodaeth. Mae hyn wedi effeithio ar nifer y gofalwyr sydd wedi manteisio ar y cynnig o asesiad a symud ymlaen i gael gwasanaeth gennym. Nid yw perfformiad yn y maes hwn cystal ag yr hoffem a byddwn yn parhau i weithio'n galed i wella hyn.

## Beth arall y mae angen i ni ei wneud yn 2015 / 2016?

- Byddwn yn gwneud gwaith i ddeall pam nad oes llawer o ofalwyr yn manteisio ar asesiad neu gefnogaeth. Byddwn yn ceisio darganfod a yw eu hanghenion yn cael eu diwallu rywsut arall;
- Byddwn yn adolygu'r trefniadau presennol i gofnodi nifer yr asesiadau a wneir. Bydd hyn yn ein helpu i wella sut rydym yn cofnodi gwybodaeth gofalwyr ac yn sicrhau ein bod yn gwybod anghenion yr holl ofalwyr unigol y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn gwybod amdanynt;
- Byddwn yn parhau i hyrwyddo a cheisio gwella nifer y bobl sy'n cael Taliadau Uniongyrchol;
- Byddwn yn gweithio trwy bartneriaid y Rhwydwaith Gofalwyr i hyrwyddo manteision cymryd rhan yn y broses asesu ac yn annog gofalwyr i dderbyn cydnabyddiaeth am eu cefnogaeth yn rôl Gofalwr.

# Rheoli Ein Busnes



Mae'r adran hon yn edrych ar rai o feysydd pwysig eraill ein gwaith nad ydych efallai'n meddwl amdanynt yn syth wrth feddwl am adran gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys: datblygu a hyfforddi staff; cyllid a chostau; contractio; canmoliaeth a chwynion.

I sicrhau eich bod yn cael y gwasanaeth gorau posibl mae ein staff yn mynd ar ystod eang o hyfforddiant sy'n eu helpu i wneud eu gwaith yn well. Mae galw ar rai grwpiau o staff, er enghraifft gweithwyr cymdeithasol, i fynd ar hyfforddiant rheolaidd i gadw eu cofrestru proffesiynol. Eleni rydym wedi cynnal 370 o gyrsiau a chael 3933 o enwebiadau am hyfforddiant a chynigwyd 3820 o lefydd. Mae'r rhan fwyaf o'r cyrsiau rydym yn eu cynnal yn agored i'r sector gwirfoddol ac annibynnol, gofalwyr a sefydliadau gofal cymdeithasol eraill. Pob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru'n gosod targedau i ni ac rydym wedi rhagori ar bob un eleni.

Mae tua 60% o'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig trwy gontractau â darparwyr o'r sector annibynnol. Mae ein Tîm Contractau'n sicrhau ein bod yn prynu gwasanaethau da ac yn cynnig y gwerth gorau am arian i bobl Merthyr Tudful. Ar hyn o bryd mae gennym 270 ar waith ar gyfrer y gwasanaethau rydym yn eu comisiynu. Mae'r Tîm Contractau hefyd yn ymweld â darparwyr yn rheolaidd i sicrhau bod y gwasanaeth maent yn eu cynnig o safon. Aethom ar 885 o ymweliadau monitro eleni.

Mae'r Cyngor yn codi am rai o'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig ac mae'r Tîm Cyllid a Chostau'n sicrhau bod pobl yn talu'r swm cywir ar yr amser cywir. Nid yw'r amser rydym wedi'i gymryd i gwblhau ein hasesiadau ariannol cystal ag y gallai fod ac mae ein perfformiad ychydig yn is na llynedd. Mae hyn oherwydd bod llai o staff yn gweithio yn y tîm bellach a'r amser mae'n ei gymryd ar brydiau i gael yr wybodaeth angenrheidiol i gynnal asesiad. Er gwaethaf hyn, rydym yn parhau i weithio'n galed i wella ein perfformiad. Mae'r tîm hwn hefyd yn gofalu am ein trefniadau Taliadau Uniongyrchol a hyd at 23 Ionawr 2015 roeddent hefyd yn ymdrin â Benthyciadau Myfyrwyr (sydd bellach wedi'i drosglwyddo i Lywodraeth Cymru).

Mae o hyd yn bwysig clywed eich bod yn fodlon ar yr hyn rydym wedi'i wneud neu pan nad yw pethau'n mynd fel rydych yn ei ddisgwyl neu pan nad ydym wedi gwneud beth rydym wedi dweud y byddwn yn ei wneud. Mae ein Gwasanaeth Canmoliaeth a Chwynion yma i'ch cefnogi yn hyn o beth. Rydym yn gweithio'n galed i ddatrys cwynion cyn gynted â phosibl ond mae weithiau'n cymryd amser hirach nag y byddem yn dymuno. Rydym o hyd yn defnyddio pobl annibynnol i ymchwilio i'r cwynion mwy cymhleth a gawn. Rydym wedi gweld bod hyn yn gweithio'n dda. Eleni gwnaethom ddatrys 86% o'ch cwynion yn llwyddiannus pan ddaethoch atom yn gyntaf (Cam Un). Fodd bynnag nid yw'r amser a gymerwyd i ddatrys cwynion cam un cystal ag yr hoffem, gyda 51% yn unig o gwynion yn cael eu datrys ymhen 10 niwrnod gwaith. Er ein bod yn gwneud ein gorau glas i ddatrys cwynion ymhen 10 niwrnod gwaith, mae angen ychydig yn hirach arnom weithiau i allu ymchwilio a datrys problemau'n gywir.

## Ein Perfformiad – Beth rydym yn ei wneud yn dda?

- Mae gan ganran uchel o'n rheolwyr a'n staff ar draws gwasanaethau preswyl a chefnogaeth gartref (Gofal Cartref a Gwasanaethau Ymateb Cychwynnol) gymhwyster cydnabyddedig ac wedi cael hyfforddiant priodol i wneud eu swydd.

**Wyddoch chi?**

- **Mae 100% o'n Rheolwyr Gofal Preswyl a Chartref wedi cyflawni'u cymhwyster targed.**
- **Mae 90% (74) o'n staff preswyl yn gymwys, mae 5% yn gweithio tuag at gyflawni'u cymhwyster ac mae 5% nad yw'r cymhwyster ganddynt hyd yn hyn.**
- **Mae 95% o'n staff Cefnogaeth Gartref (Gofal Cartref a Gwasanaethau Ymateb Cychwynnol) yn gymwys ac nid yw'r 5% sy'n weddill yn gymwys nac yn gweithio tuag at eu cymhwyster targed.**

- Mae contract priodol ar waith ar gyfer yr holl wasanaethau rydym yn eu comisiynu, a chaiff hwn ei adolygu'n unol ag amserlen gytûn.
- Mae nifer y cwynion (86%) rydym wedi'u datrys yn llwyddiannus ar gam un o'r broses gwyno'n dda

## Beth allem ei wneud yn well?

- Mae gan 19% o'n Gofalwyr Maeth gymhwyster perthnasol ar hyn o bryd, o gymharu â 51% llynedd ac mae 5% yn gweithio tuag at y cymhwyster hwn ar hyn o bryd. Y rheswm dros hyn yw bod 4 Gofalwr Maeth wedi gadael y gwasanaeth a bu cynnydd sylweddol yn nifer y Gofalwyr Maeth newydd rydym wedi llwyddo'u recriwtio fel rhan o'n hymgyrch recriwtio parhaus yn ystod y flwyddyn.
- Er ein bod wedi datrys 86% o gwynion ar gam un, mae angen i ni wella nifer y cwynion rydym yn eu datrys ymhen 10 niwrnod gwaith.
- Mae angen i ni wella nifer yr asesiadau ariannol am ofal preswyl rydym yn eu cynnal mewn pryd. Cynhaliwyd 78% o asesiadau ymhen 20 niwrnod gwaith eleni.
- Mae angen i ni hefyd wella nifer yr asesiadau ariannol newydd am gefnogaeth gartref rydym yn eu cynnal mewn pryd. Cynhaliwyd 82% mewn pryd eleni.

## Beth arall y mae angen i ni ei wneud yn 2015 / 2016?

Ymhlith y pethau y mae'n rhaid i ni eu gwneud dros y 12 mis nesaf mae:

- Flwyddyn nesaf byddwn yn gweithio gydag Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i weld a ellir hyfforddi a datblygu staff yn fwy effeithiol ar draws y ddau Awdurdod.
- Byddwn hefyd yn atgyfnerthu ein trefniadau monitro contractau er mwyn sicrhau bod pobl Merthyr Tudful yn parhau i gael gwasanaethau o safon.

- Er mwyn sicrhau bod ein staff yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i wneud eu gwaith yn dda, byddwn yn parhau i gynnig ystod eang o gyfleoedd hyfforddi iddynt fel rhan o'n rhaglen hyfforddi flynyddol.
- Byddwn yn cynnal adolygiad o'r systemau a'r prosesau yn ein Tîm Cyllid ac Asesu er mwyn i ni allu gwella'r amser rydym yn ei gymryd i asesu gallu pobl i dalu am eu gofal.
- Er ein bod yn cymryd pob cwyn o ddifrif ac yn gwneud y cyfan y gallwn i ddatrys materion, mae angen i ni weithio'n fwy i ddeall pam y mae pethau wedi mynd o'i le er mwyn gallu gwella'r gwasanaethau rydym yn eu darparu neu'n eu trefnu ar eich rhan.

# Adran 3: Gwerthfawrogi Eich Barn

Os hoffech wybod rhagor am unrhyw wybodaeth yn yr adroddiad hwn, neu os hoffech rannu'ch barn a'ch profiadau, cysylltwch â ni.

## Cysylltu â Ni

Gallwch gysylltu â ni trwy un o'r dulliau canlynol:


**Ffôn:** (01685) 724693

**E-bost:** ACRF@merthyr.gov.uk

**Ysgrifennwch at:**
**Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor**
**Adran Gwasanaethau Cymdeithasol**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Canolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN